No.

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 2 Chwefror, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

## C203 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd yr holl bartïon i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei Ffrydio'n Fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd, a bod y recordiad hwnnw'n cael ei archifo i'w wylio yn y dyfodol.

Gofynnodd a wnâi'r holl gyfranogwyr roi'r mudydd ymlaen pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir neu adlif pan fyddai'r cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad a allent roi llaw i fyny (i gael eu gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar yn hytrach na thrwy'r cyfleuster sgwrsio, er mwyn cael recordiad llawn. Gellir defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio i dynnu sylw at unrhyw broblemau technegol ac/neu i dynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## C204 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

## C205 DATGANIADAU BUDDIANT –

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G. John | Roedd a wnelo'r buddiant ag Eitem 14 ar yr Agenda - Ail-lunio Gwasanaethau: Cyfleusterau Chwaraeon Un Defnydd. Dywedodd y Cynghorydd John fod ganddo fuddiant personol a rhagfarnus yn y mater fel aelod gydol oes o Glwb Pêl-droed Llanilltud Fawr, ond bod ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio lle bo materion yn cael eu codi'n gysylltiedig ag Ail-lunio Gwasanaethau a Chynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a |

| | |
|---|---|
| | Chyngor Tref Llanilltud Fawr (paragraffau (d), (e) ac (f)). |

**C206 CHWYTHU'R CHWIBAN: CANLYNIADAU AROLWG STAFF AC ADRODDIAD BLYNYDDOL (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 12 Rhagfyr, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaeth ddiddorol wedi'i chynnal yn y cyfarfod, gan gynnwys lansiad Hyb Codi Llais, nifer yr adroddiadau a oedd yn ymwneud yn fwy â'r weithdrefn gwyno na chwythu'r chwiban, a'r defnydd o ystadegau a chanrannau.

Roedd argymhelliad (4) yn gofyn am gael gofyn i'r Prif Weithredwr sicrhau bod chwythu'r chwiban yn cael ei gynnwys ar agendâu'r holl gyfarfodydd Cyfarwyddiaeth, cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth a chyfarfodydd Tîm. Dywedodd yr Arweinydd fod y cyfarfodydd chwythu'r chwiban chwarterol yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor lle'r oedd yr holl faterion yn cael eu cofnodi er mwyn i'r Cyngor allu dysgu a gwella.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod hi'n ddyletswydd ar bob Aelod i adrodd unrhyw faterion yn gysylltiedig â diogelu.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(2) Cymeradwyo'r rhannau a gynigiwyd i'w diwygio yn y Polisi presennol, fel y manylwyd ym mharagraff 2.22 o'r adroddiad, yn rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1a2) Rhoi sylw i gynnwys y geirda a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C207 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 18 Ionawr 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod cyfnod y Weinyddiaeth bresennol i fod i ddod i ben yn 2027 a bod y Cynllun Her yn nodi'r gweithgareddau a fyddai'n cyfrannu at nod y Cyngor o fod yn sero net erbyn 2030, ond dair blynedd yn ddiweddarach. Roedd hi'n anodd cynnwys y newid hinsawdd wrth bennu'r gyllideb, ond roedd hynny'n ystyriaeth bwysig. Cafwyd trafodaeth ynghylch allyriadau carbon yn gysylltiedig â

chaffael, a'r modd yr oedd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth ofalus i'r gwasanaethau a gaiff eu caffael a'u heffaith o ran carbon.

Cytunodd y Cynghorydd Wilson fod mynd i'r afael â'r newid hinsawdd yn her enfawr a bod rhai penderfyniadau ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd a Phwyllgorau Craffu, ee, ailgylchu gwastraff gwyrdd. Anogodd yr holl breswylwyr i feddwl am eu hymddygiad o hyn ymlaen, ee, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yn lle ceir, y mathau o gynnyrch maen nhw'n ei brynu ac ati. Roedd yn falch bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn i barhau i fynd i'r afael â'r her newid hinsawdd. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Dudalen 9 o'r prif adroddiad a oedd yn manylu ar y cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd i gefnogi'r gwaith ar brosiectau newid hinsawdd.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n croesawu mwy o fanylion ynghylch system trafnidiaeth gyhoeddus integredig yn rhan o Brosiect Sero a thrafnidiaeth gynaliadwy, a'i bod yn gobeithio y byddai'r Hyb Trafnidiaeth yn Nociau'r Barri ar agor yn fuan. Roedd asesiad hefyd yn cael ei gynnal o'r posibilrwydd o gynyddu'r defnydd o baneli ffotofoltäig ar y ddau adeilad cyhoeddus a oedd yn eiddo i'r Cyngor ym Mro Morgannwg. a gwaith yn cael ei gyflawni gan y Cyngor gyda chyflenwyr a phartneriaid caffael ar ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) Bod yr adroddiad yn cael ei anfon at yr holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1a2) Rhoi sylw i gynnwys y geirda a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C208 ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD SICRWYDD AC ASESIAD RISG (SAR) CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 AC ADRODDIAD ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU AR BARODRWYDD CARBON YN Y SECTOR CYHOEDDUS AR GYFER SERO NET ERBYN 2030 (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 18 Ionawr 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn adroddiad diddorol ac eang y bu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn edrych arno'n fanwl. Roedd yn cynnwys ailwampio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, heriau ehangach yn gysylltiedig â chostio a chyllido datgarboneiddio a chyflawni targedau arbed.

Roedd swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yn cydweithio i weld sut i ddarparu gwasanaethau.

Gan gyfeirio at Argymhelliad (1) o'r eitem a gyfeiriwyd, dywedodd yr Arweinydd mai nod y Cyngor oedd cyrraedd targedau arbed mewn modd mwy targededig, a fyddai'n sicrhau'r arbedion gofynnol heb amharu ar wasanaethau neu rannau eraill allweddol o fusnes y Cyngor, ac roedd hynny'n anodd i'w gyflawni.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros y penderfyniad

Rhoi sylw i gynnwys y geirda a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C209 CEFNOGAETH COSTAU BYW AR GYFER BWYD, MANNAU CYNNES A DULLIAU CEFNOGI ERAILL (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 18 Ionawr 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod gweithgor traws-Gyfarwyddiaethol yn trafod sut roedd gwahanol gyfleusterau'n cefnogi preswylwyr drwy gynnig mannau cynnes a bwyd. Bu camddealltwriaeth yn y cyfarfod ynghylch y ffaith mai mewn ardaloedd trefol yr oedd mannau cynnes yn cael eu darparu. Mewn gwirionedd roeddent yn cael eu darparu ar draws Bro Morgannwg mewn ardaloedd gwledig, ac roedd eu niferoedd hefyd ar gynnydd.

Roedd cyllid wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru, a thrafodaeth ar y gweill ynghylch sut i gyllido cyfleusterau o'r fath mewn modd cynaliadwy wedi i'r cyllid hwnnw ddod i ben. Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod y mannau hyn yn boblogaidd iawn, a hefyd yn cynnig llefydd diogel i bobl ifanc fynd iddynt gyda'r nos.

O ran Argymhelliad (2) o'r eitem a gyfeiriwyd, cytunwyd y dylai unrhyw ddiweddariadau neu adroddiadau pellach i'r Cabinet ar ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru gael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros y penderfyniad

Rhoi sylw i gynnwys y geirda a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C210 CABINET PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2022, fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth a oedd wedi'i chynnal ynghylch recriwtio a chadw graddedigion, lle cafwyd cefnogaeth gan bob un o'r deg o Arweinwyr Awdurdod Lleol, Ymgysylltiad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn MIPIM 2023 i sicrhau cymaint o nawdd ag sy'n bosib, ond heb unrhyw effaith economaidd ar Awdurdodau Lleol, Adolygiad Fframwaith Buddsoddi Archwilio Cymru a chaffael ac adfer hen Orsaf Bŵer Aberddawan.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2022.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

Nodi'r cofnodion.

## C211 FFORWM MYNEDIAD LLEOL BRO MORGANNWG –

Cofnodion cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022, fel y cawsant eu cynnwys ar yr agenda

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd wedi'u penodi yn y cyfarfod, a llongyfarchodd y Cabinet y Cynghorwyr Ian Perry (Cadeirydd)  a William Hennessy (Is-gadeirydd) ynghylch eu dyletswyddau i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd, 2022.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

Nodi'r cofnodion.

## C212 PWYLLGOR CYNGHORI BAE CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 4 Ionawr, 2023 fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod y Pwyllgor yn gobeithio cynnal taith o amgylch y Morglawdd a'r afon ym mis Mai. Cafwyd cyflwyniadau ar Fordwyaeth Ddiogel gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â sawl cynhyrchiad ffilmio a oedd wedi'u cynnal wrth y Morglawdd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch lefelau pysgod a'r llwybr pysgod, lefelau ocsigen y dŵr

a bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â phrosiect Cyswllt Pentir Penarth.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 4 Ionawr, 2023.

Rheswm dros y penderfyniadau

Nodi'r cofnodion.

**C213 POLISI TÂL 2023/2024 (GA/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried a chadarnhau Polisi Tâl blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i gynnal trafodaeth fanwl arno. Cyfeiriodd at Adran 12 o Atodiad A yr adroddiad, hy, bod y gwahaniaeth rhwng brig a gwaelod y sefydliad yn eithaf gwastad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Adran 8.1 o Atodiad A i'r adroddiad a oedd yn amlygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â bylchau rhwng cyflogau'r rhywiau. Roedd rhan 7.14 o Atodiad A yr adroddiad yn dangos bod y proffiliau rhyw bron yn union yr un peth. Roedd hi'n dda gweld y math hwnnw o gydraddoldeb, a chymeradwyodd y Cyngor am weithio tuag at hynny.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n hoffi gweld rhywfaint o ddata meincnodi er mwyn cymharu'r sefyllfa ym Mro Morgannwg ag Awdurdodau Lleol eraill ond roedd hi'n falch o weld cydbwysedd da ar draws lefel uwch swyddogion, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gweithredol.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r newidiadau gofynnol i Bolisi Tâl y Cyngor 2023/24 fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, ac fel y cawsant eu cynnwys yn y datganiad diwygiedig yn Atodiad A.

(2) Y dylid cyfeirio Polisi Tâl y Cyngor 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Chwefror, 2023, ac i'w ystyried yn derfynol a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023. Os na fydd y Pwyllgor Craffu yn gwneud unrhyw sylwadau pellach, y byddai'r Cabinet yn ystyried bod y Polisi Tâl wedi'i gytuno ac yn ei gyfeirio i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ymateb i'r gofynion cyfreithiol o dan Reoliadau Diwygio Rheolau Sefydlog (Cymru) 2014, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a chyngor cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru.

(2) Ymateb i'r gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 a bod yn agored ac yn atebol ynghylch y modd y mae'r Cyngor yn gwobrwyo ei staff.

**C214 YMGYNGHORIAD STATUDOL I EHANGU YSGOL IOLO MORGANWG O 210 LLE I 420 O LEOEDD O FIS MEDI 2025 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a ofynnai am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol i ehangu Ysgol Iolo Morgannwg o 210 o lefydd i 420 o lefydd o fis Medi 2025.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025 gan ddechrau ar 27 Chwefror, 2023 am gyfnod o 6 wythnos gan ddiweddu ar 11 Ebrill, 2023.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori a gynigiwyd.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ceisio awdurdod y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025.

(2) Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynigion.

**C215 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI (DSCCT) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a oedd yn cyflwyno Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023 i'w gymeradwyo.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Baragraff 2.4 yr adroddiad a’r cynllun i fforddio cynlluniau adeiladu o’r newydd a chaffael gwerth £236m dros flynyddoedd 1 – 30. Dywedodd fod hyn yn fan cychwyn da, ond bod yr Awdurdod yn uchelgeisiol, a'r gobaith oedd y gellid cyflawni mwy.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 (drafft) sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(2) Y dylid cyflwyno'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel. Pe na bai'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn gwneud unrhyw sylw, ystyrid bod Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 wedi'i gymeradwyo, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 6 Mawrth, 2023, i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/54 (drafft) cyn ei gyfeirio i'r Cyngor.

(2) Ymgysylltu â’r Pwyllgor Craffu a chael cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**C216 AIL-LUNIO GWASANAETHAU: CYFLEUSTERAU CHWARAEON UN DEFNYDD (HCL) – (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd hyd yma wrth drosglwyddo Cyfleusterau Chwaraeon Un Defnydd, ac a ofynnai am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â throsglwyddiadau pellach.

Dywedodd yr Arweinydd fod trosglwyddiadau blaenorol wedi gweithio'n dda, a'i bod yn adeiladol i glybiau reoli eu tir eu hunain, gyda hynny'n aml yn fwy cost-effeithiol i'r clwb ac i'r Cyngor. Yn rhan o'r trafodaethau â Hen Glwb Rygbi'r Penarthiaid, gofynnodd a ellid cysylltu â Chlwb Pêl Droed Penarth hefyd i sicrhau bod y ddau glwb yn cyfathrebu'r naill â'r llall ynghylch rhannu'r defnydd o'r ardal ehangach, a chytunodd y Cynghorydd John y byddai hynny'n digwydd.

Diwygiodd y Cynghorydd John y geiriad yn Argymhelliad (6), ef bod y Cabinet i dderbyn adroddiad pellach ar y mater hwn 'cyn' 1 Medi 2023, yn hytrach nag 'ar ôl' hynny.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo, a nodi'r diwygiad i Argymhelliad (6)

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r cynnydd sylweddol a chadarnhaol a wnaed hyd yma mewn perthynas â chyfleusterau maes chwarae un defnydd.

(2) Yn amodol ar Benderfyniadau (3) a (4), rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant, negodi trosglwyddo'r safleoedd a nodir yn yr adroddiad, sef: Clwb Athletau Penarth, Hen Glwb Rygbi'r Penarthiaid, Pafiliwn y Wig, Pafiliwn Saint-y-Brid, Clwb Pêl Droed Island Marine, Clybiau Pêl Droed a Criced Llanilltud Fawr, Clwb Pêl Droed Unedig y Fro a Chlwb Rygbi y Barri, gan anelu i gwblhau'r trosglwyddiadau erbyn 1 Medi, 2023.

(3) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i hysbysebu'r gwarediadau arfaethedig yn unol ag a123 (2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliad 5 o Reoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015 lle bo'n berthnasol.

(4) Y dylid adrodd am unrhyw wrthwynebiad i'r gwarediadau tir a gynigir ar wahân i'r Cabinet, i'w hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol, ac os na cheir unrhyw wrthwynebiad, y dylid bwrw ymlaen â'r materion fel y manylir yn yr adroddiad.

(5) Yn amodol ar Benderfyniadau (3) a (4), y dylid rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a Phennaeth yr Amgylchedd a Thai, i baratoi, gweithredu a chwblhau'r prydlesi gofynnol.

(6) Y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar y mater hwn cyn 1 Medi, 2023.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn caniatáu i drosglwyddiadau pellach fynd rhagddynt cyn gynted â phosibl.

(3) Bodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

(4) Caniatáu i unrhyw wrthwynebiadau i'r broses hysbysebu gael eu hystyried yn briodol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau i ymrwymo i brydlesi.

(5) Awdurdodi cwblhau'r dogfennau angenrheidiol.

(6) Rhoi diweddariad pellach ynghylch trosglwyddiadau eraill sydd wedi'u cynllunio.